

Cwestiynau Cyffredin am Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn Ysgolion Am beth allwn ni gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig?

Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu hystyried fel ffyrdd effeithiol o ddatrys absenoldebau ymhlith plant sydd â lefelau cymharol isel o absenoldebau heb eu hawdurdodi h.y ar gyfer absenoldebau achlysurol nad ydynt yn cael eu caniatáu yn hytrach nag achosion mwy difrifol. Maent yn opsiwn amgen i erlyn a gellir gwneud cais amdanynt ar gyfer y rhesymau canlynol:

- Pan fydd o leiaf 10 sesiwn (5 niwrnod ysgol) wedi eu colli yn sgil unrhyw absenoldeb nad ydynt wedi cael eu hawdurdodi yn ystod y tymor cyfredol (nid oes raid i'r rhain fod yn ddiwrnodau dilynol;)
- Cyrraedd yr ysgol yn hwyr, yn rheolaidd h.y wedi i'r gofrestr gau yn ystod y tymor cyfredol. Mae rheolaidd yn golygu, cyrraedd yn hwyr ar gyfer o leiaf 10 sesiwn.
- Pan fydd Rhiant/Gwarcheidwad wedi methu ag ymgysylltu â'r Ysgol a/neu'r GLIA yn sgil eu hymdrechion i wella presenoldeb a lle na fydd cosbau llys wedi cael eu gweithredu;
- Ar gyfer cyfnod o absenoldeb o'r ysgol yn sgil gwyliau nad yw'r Ysgol wedi ei awdurdodi;
- Pan fydd disgybl wedi cael ei ddwyn at sylw'r Heddlu'n gyson yn ystod oriau ysgol a phan fydd yn absennol o'r Ysgol heb unrhyw reswm dilys.

All Ysgol gyflwyno ei hysbysiadau cosb benodedig ei hun?

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i benaethiaid a'r heddlu (gan gynnwys y dirprwyon dynodedig) yn ogystal â swyddogion dynodedig o'r awdurdod lleol (SLIA) bwerau i gyflwyno HCB. Fodd bynnag, er mwyn peidio â dyblygu hysbysiadau cosb bydd trefniadaeth rheoli a phrosesu'r cyngor yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r SLIA.

Wedi i'r GLIA anfon llythyr rhybudd, pryd fydd cyfnod monitro 15 diwrnod yr ysgol yn dechrau?

Bydd y cyfnod monitro yn cael ei bennu gan y SLIA a bydd yn cael ei nodi yn y llythyr rhybudd y byddwch chi'n derbyn copi ohono.

Yn ystod cyfnod monitro 15 diwrnod yr ysgol, mae disgybl yr ydym wedi anfon llythyr rhybudd ato wedi cael ei gofnodi â chod N (ni roddwyd rheswm hyd yma.) A allwn gyfieirio am hysbysiad cosb?

Na allwch. Mae'n rhaid i chi sefydlu rheswm dros yr absenoldeb. Os newidir y rheswm a ddarperir i O neu U, gallwch gyfieirio.

Mae disgybl wedi bod yn absennol, heb i'w absenoldeb gael ei awdurdodi yn ystod cyfnod monitro 15 diwrnod yr ysgol a byddem yn hoffi cyfieirio am hysbysiad cosb. Pa mor gyflyn fyddai angen i ni wneud hyn?

Er mwyn sicrhau bod unrhyw dystiolaeth y bydd gofyn i ni ei gyflwyno yn y llys yn cael ei gadw oddi fewn i'r ffiniau amser cywir, gofynnwn fod unrhyw gyfieiriadau'n cael eu gwneud oddi fewn i 2 wythnos o ddiwrnod olaf y cyfnod monitro.

Mae gennym ddisgybl yn y Dosbarth Derbyn sy'n cyrraedd yn hwyr yn gyson wedi i'r gofrestr gau. A allwn anfon llythyr rhybudd?

Gallwch, os yw'r disgybl wedi cyrraedd oed ysgol gorfodol

A allaf ofyn am hysbysiad cosb benodedig ar gyfer plentyn nad sydd o oed ysgol statudol?

Na allwch, dylid cofnodi ei absenoldebau fel rhai nad sydd wedi eu hawdurdodi, yr un fath â phob disgybl arall ond ni ellir cyflwyno HCB gan na allwn erlyn teuluoedd disgyblion sy'n iau na'r oed ysgol statudol.

A yw'r cyfnod rhybudd o 15 diwrnod yr un fath ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor?

Nac ydyw. Yn wahanol i'r rhesymau eraill dros gyflwyno hysbysiad cosb, ni fydd y cyfnod rhybudd o 15 diwrnod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau yn ystod tymor ysgol. Wedi derbyn y cais, bydd y GLIA yn cyflwyno hysbysiad cosb yn syth.

A fydd cyfanswm yr absenoldebau na fydd wedi cael eu hawdurdodi yn cael eu coladu trwy gydol y flwyddyn - hynny yw, cyfanswm treigl y niferoedd o sesiynau o absenoldeb nad ydynt wedi cael eu hawdurdodi?

Na fyddant, bydd pob tymor ysgol yn cael ei drin yn unigol a dim ond y sesiynau oddi fewn i'r cyfnod hwnnw fydd yn cael eu defnyddio i bennu a yw disgybl wedi cyrraedd trothwy yn y Cod Ymddygiad, e.e 10 neu ragor o sesiynau nad sydd wedi cael eu hawdurdodi yn ystod y tymor cyfredol gan na fyddai absenoldebau yn ystod y tymor cynt yn cyfrif.

Sut all Ysgol wneud cais i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig?

Bydd y GLIA yn ymateb i bob cais gan Ysgolion i gyflwyno HCB drwy e-bost er mwyn medru cyflwyno HCB oddi fewn i 10 diwrnod ysgol o dderbyn y cais ac yn ddibynnol ar y ffaith eu bod wedi cwrdd â holl feini prawf perthnasol y Cod Ymddygiad.

Gall mwy nag un hysbysiad cosb benodedig gael eu cyflwyno yn ystod blwyddyn academaidd?

Gall- fel yr amlinellir yn y Cod Ymddygiad, dylid nodi y gellir cyflwyno mwy nag un HCB yn ystod y flwyddyn academaidd.

Beth mae'r refeniw a ddaw yn sgil y dirwyon yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer?

Bydd y GLIA yn cadw unrhyw refeniw a ddaw yn sgil HCB ar wahân a'i ddefnyddio i dalu am gostau gorfodaeth h.y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno, casglu neu erlyn os na fydd HCB yn cael ei dalu.

